# Uwchsain methiant gwythiennol – sgan gwythïen

## Beth yw hwn?

Gall sgan uwchsain o'ch gwythiennau hefyd gael ei alw'n dwplecs neu'n Doppler o'ch gwythiennau. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'r gwythiennau yn eich coesau. Mae'r gwythiennau'n cludo gwaed o aelodau'r corff yn ôl i'r galon ac mae ganddyn nhw falfiau i helpu rheoli'r llif i'r cyfeiriad cywir. Mae'r prawf hwn yn ffordd ddiogel ac effeithiol o asesu a yw'r falfiau yn y gwythiennau'n gweithio'n iawn neu a ydynt yn gollwng ac yn achosi eich gwythiennau chwyddedig/wlseriad. Gall y sgan uwchsain fapio'r gwythiennau trafferthus gan alluogi'r ymgynghorydd i gynllunio'ch triniaeth. Mae'r prawf yn ddi-boen ond weithiau gall wneud i gleifion deimlo ychydig yn benysgafn neu'n wan. Rhowch wybod i ni os yw hynny'n digwydd.

## Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y sgan hwn oherwydd ei fod yn amau bod gennych falfiau sy'n gollwng y tu mewn i'ch gwythiennau a allai fod yn achosi eich chwyddo, afliwiad, gwythiennau amlwg neu wlserau.

## Sut mae uwchsain y wythïen yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn perfformio ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Bydd gofyn i chi dynnu'ch

esgidiau a'ch trowsus/sgert a bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i amddiffyn eich dillad rhag y jel uwchsain. Os yn bosibl, bydd y sgan yn cael ei berfformio gyda chi naill ai'n sefyll neu'n eistedd ar ymyl y soffa gyda'ch coesau'n hongian i lawr. Rhoddir jel ar eich coes a chynhelir y sgan o'r forddwyd i'r ffêr. Bydd y gwyddonydd yn gwasgu rhan isaf eich coes yn ysgafn i asesu llif y gwaed o fewn y gwythiennau. Bydd y prawf yn cymryd tua 30-60 munud.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniad y sgan yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn eich apwyntiad claf allanol nesaf. Os cynhelir y sgan yn y clinig, fe welwch y meddyg eto ar ôl y sgan.